*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **11 Chwefror 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (03303 132 683)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill – Rhagfyr 2018 (Blwyddyn Ariannol 2018/19)** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu gwybodaeth i'r aelodau am weithgareddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a'i berfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 4,209 o danau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yng Ngogledd Cymru yn y misoedd rhwng Ebrill a Rhagfyr 2018.

3 Mae nifer y tanau eilaidd y mae'r Gwasanaeth yn mynd atynt yn amrywio o un flwyddyn i'r llall. Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2018, aeth y Gwasanaeth at 1,019 o danau eilaidd, ac roedd hyn 42% yn uwch na'r nifer gyfartalog yn y tair blynedd flaenorol.

4 Rhwng misoedd Ebrill a Rhagfyr 2018/19, fe wnaeth nifer y galwadau am gymorth, a oedd yn alwadau diangen yn y pen draw, gynyddu 8% i 1,760, o'i gymharu â 1,625 yn ystod yr un cyfnod yn 2017.

5 Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2018, aeth y Gwasanaeth at 407 o danau glaswelltir, coetir a chnydau, o'i gymharu â 159 o danau yn yr un cyfnod yn 2017/18. Yn ystod yr un cyfnod, fe wnaeth nifer y tanau bwriadol yn ymwneud â glaswelltir, coetir a chnydau gynyddu o 152 o danau i 181.

6 Fe wnaeth nifer yr adegau yr aethpwyd at larymau tân awtomatig mewn fflatiau pwrpasol gynyddu o 220 o ddigwyddiadau yn 2017/18 (Ebrill i Ragfyr) i 272 o ddigwyddiadau yn yr un cyfnod yn 2018/19.

7 Yn ystod misoedd Ebrill i Ragfyr 2018/19, cafwyd 43% o ostyngiad yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn yn nifer y digwyddiadau at roi'r gorau i'r Tîm Cymorth Cymunedol a'r gweithgareddau cyd-ymateb.

8 Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2018, fe wnaeth nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi ostwng 16% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017 (291 i 244).

9 Cafwyd 5 o farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru rhwng Ebrill a Rhagfyr 2018, o'i gymharu ag 1 yn yr un cyfnod yn 2017. Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2018, cofnodwyd bod 11 o bobl wedi cael mân anafiadau a chafodd 2 berson anafiadau difrifol mewn tanau damweiniol mewn cartrefi.

**ARGYMHELLIAD**

10 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

11 Yn Atodiad 1, er gwybodaeth i'r aelodau, mae adroddiad monitro am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Rhagfyr 2018.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Cymorth i'r Awdurdod fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant sydd yn cynllun cyfunol ar gyfer gwella a llesiant 2018/19. |
| Cyllideb | Cymorth i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd lefel annisgwyl o ddigwyddiadau. |
| Cyfreithiol | Cymorth i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofynion newidiol arno gyda newidiadau yn y lefel y digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a monitro perfformiad, a allai effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofyn. |

**Atodiad 1**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**9 Mis**
**Ebrill 2018 – Rhagfyr 2018**

**Ffigyrau dros dro ydynt, a gallent fod yn agored i fân newidiadau.**


**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **ADRODD YNGHYLCH DIGWYDDIADAU** | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Trosolwg o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 1 |
| | |
| **TANAU FESUL CATEGORI** | |
| Tanau fesul categori (prif danau, tanau eilaidd, tanau simnai) | 2 |
| Tanau fesul cymhelliad (damweiniol/bwriadol) | 3 |
| Tanau – Glaswelltir, coetir a chnydau fesul cymhelliad | 4 |
| Tanau – Glaswelltir, coetir a chnydau damweiniol | 5 |
| Tanau – Glaswelltir, coetir a chnydau bwriadol | 6 |
| Tanau – Glaswelltir, coetir a chnydau damweiniol mawr | 7 |
| Tanau – Glaswelltir, coetir a chnydau bwriadol mawr | 8 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen fesul categori (larymau tân awtomatig, didwyll, maleisus) | 9 |
| | |
| **LARYMAU TÂN AWTOMATIG AR SAFLEOEDD** | |
| Larymau tân awtomatig ar safleoedd, fesul math a blwyddyn | 10 |
| | |
| **GALWADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Galwadau Gwasanaeth Arbennig fesul categori | 12 |
| Galwadau Gwasanaeth Arbennig – mewn grwpiau (gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, a rhai heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd) | 12 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN GWELLA A LLESIANT A** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 13 |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 14 |
| Natur yr anaf | 15 |
| Anafusion fesul mathau o eiddo | 16 |
| | |
| **GEIRFA** | 18 |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

1.1 Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 4,209 o danau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yng Ngogledd Cymru rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2018/19. Cafwyd 6% o ostyngiad yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn 2018/19, o'i gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017/18, gyda gostyngiad cyffredinol o 13% dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

**Siart 1. Nifer y tanau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt, gyda'r cyfartaledd 3 blynedd, Ebrill i Ragfyr**



## 2.0 Tanau fesul Categori


2.1 O'r 4,209 o adegau yr aethpwyd allan rhwng Ebrill a Rhagfyr 2018/19, roedd 747 ohonynt at brif danau (18%), 1,019 at danau eilaidd (24%) ac 81 at danau simnai (2%).

2.2 Ers 2014/15, bu gostyngiad graddol yn nifer y prif danau yr aethpwyd atynt, sy'n cyfateb i 9% ostyngiad yn 2018/19 o'i gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2014/15.

2.3 Rhwng misoedd Ebrill a Rhagfyr, fe wnaeth nifer y tanau simnai haneru bron, gyda 38% o ostyngiad o'I gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2014/15.

2.4 Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y tanau eilaidd wedi bod yn amrywio. Cafwyd y ffigwr isaf yn 2016/17 (619) a'r ffigwr uchaf yn 2018/19 (1,019). Mae'n fwyaf tebygol fod hyn wedi digwydd oherwydd bod y tymheredd uchel a gafwyd yn ystod haf 2018/19 wedi arwain at gynnydd yn nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau.

**Siart 2. Nifer y tanau yr aethpwyd atynt fesul categori, Ebrill i Ragfyr**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TANAU SIMDDE | 130 | 98 | 87 | 76 | 81 | 87 |
| PRIF DANAU | 821 | 817 | 841 | 757 | 747 | 805 |
| TANAU EILAIDD | 821 | 777 | 619 | 759 | 1,019 | 718 |

## 3.0 Tanau fesul Cymhelliad


3.1 O gymharu'r cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2017/18 â'r un cyfnod yn 2018/19, mae nifer y tanau damweiniol wedi cynyddu 24%, sef o 1,043 i 1,295 o danau. O gymharu'r un cyfnodau o ran tanau bwriadol, cafwyd cynnydd o 1%, sef o 549 i 552 o danau.

3.2 Mae nifer y tanau simnai wedi gostwng 38%, sef 49 yn llai o danau o gymharu 2018/19 â 2014/15. Fodd bynnag, cafwyd 7% o gynnydd, sef 5 yn fwy o danau yn 2018/19 o gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017/18.

3.3 Ers 2014/15, mae nifer y prif danau damweiniol wedi gostwng o 646 yn 2014/15 i 558 o danau yn 2018/19. Mae nifer y prif danau bwriadol wedi bod yn amrywio. Cafwyd y nifer uchaf yn 2015/16 (sef 196 o ddigwyddiadau). Rhwng 2017/18 a 2018/19, fe wnaeth nifer y prif danau bwriadol gynyddu 12%, sef 20 o ddigwyddiadau yn fwy.

3.4 Mae nifer y tanau eilaidd damweiniol wedi aros yn eithaf cyson. Cafwyd y nifer isaf yn 2016/17 (sef 341). Fodd bynnag, cafwyd cynnydd sylweddol (sef 277 yn fwy o danau) yn 2018/19 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017/18. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i'r tymheredd uwch a'r tywydd sych hir yn ystod haf 2018/19. Mae nifer y tanau eilaidd bwriadol wedi bod yn gweld tueddiad am i lawr, gyda 30% o ostyngiad yn 2016/17 o'i gymharu ag yn un 2015/16. Yn 2017/18, cafwyd 102 yn fwy o danau, ond eto fe wnaeth hyn ostwng yn 2018/19.


**Siart 3. Nifer y tanau yr aethpwyd atynt fesul cymhelliad, Ebrill i Ragfyr**



3.5 Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2018/19, aeth y Gwasanaeth at 588 o danau glaswelltir, coetir a chnydau. Roedd 407 ohonynt yn rhai damweiniol, ac mae hyn lawer yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol (159), sef cynnydd o 39%.

3.6 Yn ystod yr un cyfnod, fe wnaeth nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau gynyddu o 152 i 181 o danau. Mae'n debygol fod y tymheredd uwch na'r cyffredin yn ystod haf 2018/19 wedi bod yn ffactor cyfrannol pwysig.


**Siart 4. Nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau yr aethpwyd atynt fesul cymhelliad, Ebrill i Ragfyr**



3.7 Roedd mwyafrif y tanau glaswelltir, coetir a chnydau a ddechreuodd yn ddamweiniol yn ystod 2018/19 yn cael eu rhoi yn y categori 'hyd at 5 metr sgwâr'. Rhwng 2017/18 a 2018/19, mae'r ffigyrau wedi dyblu bron, o 54 o ddigwyddiadau i 104 o ddigwyddiadau.


3.8 O gymharu Ebrill a Rhagfyr 2017/18 â'r un cyfnod yn 2018/19, mae nifer y tanau a oedd rhwng 5,001 a 10,000 metr sgwâr wedi gostwng o 5 tân i 3 thân.

**Siart 5. Nifer y tanau damweiniol mewn glaswelltir, coetir a chnydau yr aethpwyd atynt fesul amcangyfrif o'r difrod tân mewn metrau sgwâr, Ebrill i Ragfyr**



3.9 Yn y blynyddoedd 2014/15, 2015/16 a 2017/18, aeth y Gwasanaeth at 76 o danau bwriadol mewn glaswelltir, coetir a chnydau lle roedd yr amcangyfrif o faint y difrod hyd at 5 metr sgwâr. Fe wnaeth hyn ostwng i 66 o danau yn 2018/19. Mae'r rhan fwyaf o danau glaswelltir, coetir a chnydau bwriadol yn llai na 100 metr sgwâr.


**Siart 6. Nifer y tanau bwriadol mewn glaswelltir, coetir a chnydau yr aethpwyd atynt fesul yr amcangyfrif o'r difrod tân mewn metrau sgwâr, Ebrill i Ragfyr**




3.10 Yn ffodus, mae tanau glaswelltir, coetir a chnydau mawr iawn wedi'u cyfyngu i un neu ddau y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn llai na 2 hectar.

3.11 Yn 2018/19, cafwyd 2 ddigwyddiad lle roedd tanau glaswelltir, coetir a chnydau damweiniol wedi effeithio ar 6 hectar o dir. Roedd un wedi effeithio ar 20 hectar o dir, ac un wedi effeithio ar 80 hectar. Yr ardal fwyaf yn y cyfnod o 5 mlynedd rhwng Ebrill a Rhagfyr 2014/15 a 2018/19 oedd yr un yn 2018/19 pryd cafodd 900 hectar o dir ei ddifrodi.


**Siart 7. Nifer y tanau damweiniol mawr mewn glaswelltir, coetir a chnydau fesul yr amcangyfrif o ddifrod tân mewn hectarau, Ebrill i Ragfyr**




3.12 Eto, anaml y byddwn yn cael digwyddiadau pryd mae ardaloedd mawr o laswelltir, coetir a chnydau wedi cael eu difrodi oherwydd tanau bwriadol. Yn 2015/16, cafwyd 3 thân yn effeithio ar hyd at 2 hectar o dir, un lle roedd y difrod wedi digwydd i 4 hectar o dir, ac un arall lle effeithiwyd ar 30 hectar.

3.13 Yn 2017/18, cafwyd un digwyddiad yng Ngogledd Gwynedd, lle cafodd 518 o hectarau eu difrodi. Yn 2018/19, aeth y Gwasanaeth at un digwyddiad yn effeithio ar 2 hectar ac un lle cafwyd difrod i 40 hectar o dir.

**Siart 8. Nifer y tanau mawr a bwriadol mewn glaswelltir, coetir a chnydau yr aethpwyd atynt fesul yr amcangyfrif o ddifrod tân mewn hectarau, Ebrill i Ragfyr**




## 4.0 Galwadau Diangen

4.1 O'r 4,209 o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt rhwng Ebrill a Rhagfyr yn 2018/19, roedd 42% (1,760) ohonynt yn alwadau diangen, sy'n uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd.

4.2 Mae'r galwadau diangen yn y categorïau larymau tân awtomatig a didwyll wedi cynyddu eleni o'i gymharu ag yn 2017/18. Fe wnaeth y galwadau diangen o larymau tân awtomatig gynyddu 3.9%, sef 33 o ddigwyddiadau, ac fe wnaeth y rhai didwyll gynyddu 13.8%, sef 102 o ddigwyddiadau. Mae'r cynnydd yn y ddau gategori wedi golygu bod y niferoedd tua'r un faint â'i gilydd. Yn yr un cyfnod, mae nifer y galwadau diangen a oedd yn faleisus wedi aros yr un fath.

**Siart 9. Nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt, fesul categori**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfartaledd 3 Blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 1,552 | 745 | 924 | 856 | 889 | 842 |
| Didwyll | 938 | 760 | 723 | 739 | 841 | 741 |
| Maleisus | 62 | 34 | 42 | 30 | 30 | 35 |
| Cyfanswm | 2,552 | 1,539 | 1,689 | 1,625 | 1,760 | 1,618 |

## 5.0 Larymau Tân Awtomatig fesul Math a Blwyddyn (rhai yr aethpwyd atynt yn unig)

5.1 Ers dechrau'r polisi newydd ar larymau tân awtomatig yn Ebrill 2015, mae gostyngiad wedi bod yn nifer yr adegau pryd rydym wedi mynd at lawer math o eiddo. O gymharu misoedd Ebrill i Ragfyr 2017/18 â'r un cyfnod yn 2018/19, mae larymau tân awtomatig ar safleoedd amhreswyl wedi gostwng (o 183 i 172). Mae nifer yr adegau pryd rydym wedi mynd at larymau tân awtomatig mewn ysbytai a safleoedd gofal meddygol ac addysg ac adeiladau cyhoeddus wedi aros y rhai uchaf (gweler y tabl isod).

**Tabl 1. Amhreswyl**

| Math o Eiddo | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysbytai a Gofal Meddygol | 131 | 89 | 146 | 140 | 133 | 639 |
| Adeiladau addysg ac adeiladau cyhoeddus | 188 | 24 | 40 | 30 | 30 | 312 |
| Manwerthu | 116 | 7 | 4 | 1 | 3 | 131 |
| Swyddfeydd a Chanolfannau Galw | 47 | 1 | 1 | 1 | 1 | 51 |
| Bwyd, diod a hamdden | 91 | 10 | 9 | 6 | 1 | 117 |
| Diwydiant | 125 | 0 | 2 | 5 | 2 | 134 |
| Adeilad Amhreswyl Preifat Arall | 2 | | | | | 2 |
| Lleoliadau Chwaraeon a Chyfleuster Newid | 25 | 0 | 0 | 0 | 0 | 25 |
| Warysau a Swmp-storio | 12 | | 1 | | 1 | 14 |
| Cyfleustodau Cyhoeddus | 13 | | | | | 13 |
| Laborordy/Sefydliad Ymchwil | 8 | | | | | 8 |
| Adeiladau Eraill/Defnydd anhysbys | 4 | | | | 1 | 5 |
| Crefyddol | 5 | | | | | 5 |
| Meysydd Parcio | 1 | | 2 | | | 3 |
| Adeiladau Trafnidiaeth | 3 | | | | | 3 |
| Llety Anifeiliaid/Bridio (nid ffarm) / Lloches Anifeiliaid | | 1 | | | | 1 |
| **Cyfanswm** | **771** | **132** | **205** | **183** | **172** | **1,463** |

5.2 O gymharu misoedd Ebrill i Ragfyr 2017/18 â'r un cyfnod yn 2018/19, cafwyd cynnydd yn nifer yr adegau pryd aethpwyd at larymau tân awtomatig mewn cartrefi (gweler y tabl isod). Mae nifer gyffredinol yr aethpwyd at gartrefi wedi cynyddu 10%, sef o 606 o ddigwyddiadau i 666 o ddigwyddiadau. Mae nifer y digwyddiadau larymau tân awtomatig wedi cynyddu 24%, neu 52 o ddigwyddiadau, mewn fflatiau pwrpasol, ac mae nifer y digwyddiadau mewn tai wedi gostwng 4%, neu 6 o ddigwyddiadau. Mae nifer y digwyddiadau larymau tân awtomatig hefyd wedi cynyddu o 136 i 161 o ddigwyddiadau (18%) rhwng 2017/18 a 2018/19.

**Tabl 2. Cartrefi**

| Math o Eiddo | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fflat Bwrpasol | 209 | 210 | 223 | 220 | 272 | 1,134 |
| Tai | 172 | 144 | 183 | 162 | 156 | 817 |
| Byngalo | 91 | 108 | 147 | 136 | 161 | 643 |
| Llety Gwarchod (annibynnol) | 67 | 38 | 42 | 57 | 44 | 248 |
| Fflat wedi'i throsi | 23 | 22 | 37 | 29 | 21 | 132 |
| Castell | 3 | 2 | 1 | | 5 | 11 |
| Plasty | | 5 | 1 | | 3 | 9 |
| Cartref Arall | 3 | | 2 | | 3 | 8 |
| Tai Amlfeddiannaeth | 1 | 2 | 2 | 2 | 0 | 7 |
| Tai Symudol | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **569** | **531** | **638** | **606** | **666** | **3,010** |

5.3 Rhwng misoedd Ebrill a Rhagfyr 2018/19, cafwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau larymau tân awtomatig ar safleoedd preswyl eraill, o'i gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017/18 (67 i 50). Mae digwyddiadau larymau tân awtomatig yn gyson isel (gweler y tablau isod).

**Tabl 3. Preswyl Eraill**

| Math o Eiddo | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llety Gwyliau | 4 | 3 | 2 | 0 | 1 | 10 |
| Gwestai, hosteli a gwely a brecwast | 30 | 18 | 17 | 15 | 12 | 92 |
| Llety myfyrwyr | 83 | 21 | 29 | 20 | 14 | 167 |
| Eraill, nad ydynt yn gartrefi | 92 | 38 | 31 | 32 | 21 | 214 |
| Tai Gwarchod (nad ydynt yn annibynnol) | 3 | | 2 | | 2 | 7 |
| **Cyfanswm** | **212** | **80** | **81** | **67** | **50** | **490** |


**Tabl 4. Eraill**

| Math o Eiddo | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynhwysydd bach ar gyfer sbwriel/ailgylchu (ac eithrio bin olwynion) | 0 | 1 | 0 | 0 | | 1 |
| Anhysbys | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **0** | **2** | **0** | **0** | **1** | **3** |

## 6.0 Galwadau Gwasanaeth Arbennig

6.1 Mae nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi gostwng 43%, sef o 1,253 i 720 yn 2018/19 o'i gymharu ag yn 2017/18. Mae'r gostyngiad hwn wedi digwydd oherwydd bod y prosiect Tîm Cymorth Cymunedol wedi dod i ben ym mis Mai 2018 a'r gweithgareddau Cyd-Ymateb wedi dod i ben ym mis Medi 2017.


**Siart 10. Nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig, fesul categori**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Arall heblaw GTFf (ddim yn cynnwys prosiectau) | 284 | 393 | 332 | 357 | 381 |
| GTFf | 220 | 163 | 159 | 161 | 159 |
| Tîm Cynorthwyo Cymunedol - helpu hefo codymau | 0 | 0 | 166 | 631 | 121 |
| Dulliau Mynediad | 0 | 0 | 0 | 0 | 34 |
| Digwyddiad Meddygol - Cyd-ymatebwr | 0 | 0 | 98 | 86 | 0 |
| Ar goll o Gartref | 0 | 0 | 19 | 18 | 25 |

6.2 Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi amrywio. Mae'r ffigyrau yn y cyfnod yn 2018/19 o'u cymharu ag yn 2017/18, ar gyfer y categori 'heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd' wedi gostwng 60% (o 1092 o ddigwyddiadau i 441 o ddigwyddiadau).

**Siart 11. Nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt (fesul grwpiau)**




**7.0** **Monitro mewn perthynas ag Amcan Gwella a Llesiant A:** *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i fod yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

7.1 Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2018/19, cafwyd gostyngiad yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017/18 (291 i 244) – mae hyn hefyd 16% yn is nag yn yr un cyfnod yn 2014/15 ac yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

7.2 Mae nifer y tanau bwriadol mewn cartrefi hefyd wedi gostwng dros yr un cyfnod yn 2018/19, o'i gymharu ag yn 2017/18, sef o 27 o danau i 22 o danau. Mae'r ffigwr hwn hefyd yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

**Siart 12. Nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt, fesul cymhelliad**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfartaledd 3 Blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tân (Damweiniol) | 291 | 294 | 332 | 291 | 244 | 306 |
| Tân (Bwriadol) | 33 | 30 | 25 | 27 | 22 | 27 |


**8.0 Anafusion oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**

8.1 Yn ystod misoedd Ebrill i Ragfyr 2018/19, cafwyd 5 o farwolaethau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru, o'i gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017/18.

8.2 Yn ystod yr un cyfnod yn 2018/19, cafwyd 2 anaf difrifol, sef yr un nifer a gofnodwyd yn yr un cyfnod yn 2017/18. Cofnodwyd bod 11 o bobl wedi cael mân anafiadau, o'i gymharu â 35 yn 2017/18.

8.3 Cafodd 3 yn fwy o bobl gymorth cyntaf yn y fan a'r lle, o'i gymharu ag yn 2017/18, ac fe wnaeth nifer y bobl a gafodd archwiliad rhagofalus, neu a gafodd gyngor i weld meddyg rhag ofn, ostwng o 24 yn 2017/18 i 10 yn 2018/19.

**Siart 13. Nifer y marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi**





| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Marwolaeth | 2 | 2 | 3 | 1 | 5 |
| Anafiadau - bychan | 25 | 39 | 18 | 35 | 11 |
| Anafiadau - difrifol | 0 | 3 | 6 | 2 | 2 |
| Archwiliad rhagofalus | 35 | 49 | 41 | 24 | 10 |
| Cymorth cyntaf | 30 | 36 | 29 | 20 | 17 |

## 9.0 Natur yr anaf

9.1 Rhwng misoedd Ebrill a Rhagfyr rhwng 2014/15 a 2018/19, cafwyd cyfanswm o 445 o anafusion mewn tanau damweiniol mewn cartrefi. O'r rhain, fe wnaeth 300 o anafusion ddioddef mygu oherwydd nwy, mwg, neu fygdarthau gwenwynig. O fewn y categori hwn, cafwyd y nifer uchaf o ddigwyddiadau yn 2015/16 (102 o anafusion) a'r nifer isaf yn 2018/19 (29 o anafusion).

**Siart 14. Natur yr anafiadau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi**




## 10.0 Anafusion fesul Mathau o Eiddo – Gogledd Cymru

10.1 Mae'r anafusion fesul 100 o danau yng Ngogledd Cymru wedi bod yn seiliedig ar ddata am yr holl danau damweiniol a nodwyd 'oes' neu 'anhysbys' ar gyfer dioddefwyr wrth y cwestiwn yn ymwneud â thân yn y gronfa ddata.


10.2 Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, yn y categori cartrefi, fflatiau wedi'i trosi'n bwrpasol y cafwyd y gyfradd anafusion uchaf am bob 100 o danau, a chafwyd y cyfraddau isaf yn y tai amlfeddiannaeth.

10.3 O fewn categori safleoedd preswyl nad ydynt yn gartrefi, mae cyfraddau uchaf yr anafusion i'w cael yn y llety gwyliau. O ran safleoedd amhreswyl, mae'r cyfraddau uchaf i'w cael yn y categori bwyd, diod a hamdden.

**Siart 15. Anafusion am bob 100 o danau, fesul math o eiddo, 2014/15 i 2018/19 (Ebrill – Rhagfyr)**



**Siart 16. Anafusion am bob 100 o danau, fesul math o eiddo a blwyddyn yng Ngogledd Cymru (Ebrill – Rhagfyr)**




10.4 Ar ôl archwilio'r prif bethau sydd wedi achosi tanau mewn 'fflatiau wedi'u trosi', cafodd y rhan fwyaf o'r tanau eu hachosi gan goginio yn y cartref.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi mewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd yn digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n cynnwys anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Galwadau Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>d) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – systemau awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |